# Cynhwysiant ac Amrywiaeth

## Strategaeth Pum Mlynedd
## 2023 – 2028



**Adlewyrchu'r gorau o'n cymunedau**

HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG

# Rhagair

**Mae adeiladu gweithlu modern a chynhwysol yn ymrwymiad hirdymor, nid yn emosiwn dros dro nac yn adwaith tymor byr.**

Rhaid i Gynhwysiant ac Amrywiaeth fod yn rhan o'r hyn yr ydym i gyd yn ei wneud, wedi'i blethu i wead ein sefydliad a'n diwylliant. Ein nod yw i'n cymunedau a'n pobl deimlo eu bod yn cael eu hamddiffyn, eu clywed, eu cynnwys a'u gwerthfawrogi ac iddynt ymddiried ynom fel **Gwarcheidwaid y Rheilffordd** ac fel cyflogwr o ddewis.

Nid yw'r galw gan gymunedau am ymddiriedaeth a chyfreithlondeb mewn plismona erioed wedi bod mor uchel, nac mor dyngedfennol. Mae disgwyliad cynyddol gan ein pobl am eu hawl i degwch a gostyngiad cynyddol mewn goddefgarwch ar gyfer methiannau ac annigonolrwydd yn ein moeseg a'n hymddygiadau.

Mae hyn yn cyflwyno cyfleoedd a heriau newydd y mae'n rhaid i ni eu croesawu, bod yn berchen arnynt ac ymateb iddynt. Mae'r strategaeth hon yn disgrifio ein hymrwymiad gwirioneddol i gynlluniau, adnoddau a chyllid hirdymor, cyson a chynaliadwy. Mae nodi ac ysgogi gweithgarwch tuag at y buddion rydym am eu gwireddu, a'r dyfodol rydym am ei weld a'i deimlo, yn hollbwysig ac yn allweddol i lwyddiant.

**Karen Wiesenekker**
Pennaeth Cynhwysiant Strategol ac Amrywiaeth

# Ein hymagwedd

Mae ein strategaeth yn fap ffordd i gyflawni Cynhwysiant ac Amrywiaeth (I&D) yn llawn ar gyfer Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Fe'i bwriedir fel cyfeiriad cyson i'n cadw ar y trywydd iawn i gyflawni ein nodau a chyrraedd ein cyflwr arfaethedig yn y dyfodol. Mae'n ddogfen fyw i'w hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd gyda'r hyblygrwydd i gynnwys mentrau ac ysgogwyr newydd. Bydd yn manteisio ar ddysgu sefydliadol sy'n deillio o nodi llwyddiant, risgiau, methiant a thystiolaeth.

Mae'r Tîm Cynhwysiant Strategol ac Amrywiaeth yn gyfrifol am gefnogi'r sefydliad i gyflawni ei nodau sy'n ymwneud ag I&D. Mae'r tîm yn darparu cyfeiriad strategol, offer effeithiol ac yn meithrin gallu i rymuso ein harweinwyr, rheolwyr llinell a chydweithwyr i ddeall I&D, bod yn berchen arno a'i gyflwyno'n hyderus.

Bydd y strategaeth hon yn ysgogi cynnydd diriaethol, mesuradwy a gweladwy tuag at BTP cynhwysol ac amrywiol. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu nodau, gwerthoedd a strategaeth y ldlu yn ogystal â chael ei chysylltu'n gynhenid â'r Strategaeth Pobl. Darperir yn benodol ar gyfer yr ysgogwyr cenedlaethol ac allanol megis y Cynllun Gweithredu Hil a'r cynllun Trais yn erbyn Menywod a Merched ynghyd â Strategaeth Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant NPCC fel blaenoriaethau craidd.

Rydym yn croesawu craffu mewnol ac allanol gan ein cyfeillion beirniadol y gofynnwn iddynt ein dwyn i gyfrif, ein herio a rhoi cyfle i wella.

Mae'r tîm I&D Strategol yn gweithredu partneriaeth busnes i gefnogi ein cydweithwyr ac i arfogi a grymuso arweinwyr a rheolwyr i ddarparu gofal ac arweinyddiaeth briodol. Bydd perchnogaeth ac atebolrwydd yn cynorthwyo'r dull hirdymor, cyson a chynaliadwy hwn.

Bydd gwireddu buddion yn sicrhau bod gweithgarwch ac allbynnau ar y trywydd iawn tuag at ganlyniadau diriaethol a mesuradwy.

Bydd y cyfeiriad strategol yn hyblyg ac yn cael ei yrru gan dechnoleg, dataa metrigau allweddol i wthio allbynnau a gweithgareddau clir, nodi blaenoriaethau cyfnewidiol a defnyddio dysgu sefydliadol i ddeall effaith a chynnig opsiynau hyblyg.

Byddwn yn sicrhau bod gan ein pobl fynediad at y cyngor a'r arweiniad cywir i'w helpu i weithredu gyda lens cynhwysiant ac amrywiaeth. Ar yr un pryd, byddwn yn asesu effaith ein penderfyniadau, gweithrediadau a pholisïau i nodi a lliniaru anfantais ac anghymesuredd.



# Mae’r cyfeiriad strategol yn seiliedig ar ddata, tystiolaeth, risgiau a chyfleoedd a bydd y tîm I&D strategol yn cyflawni hyn drwy:

- Meithrin perthnasoedd cydweithredol gyda’r sefydliad, rhanddeiliaid a phartneriaid
- Ymgysylltu a chyfathrebu â’n pobl gan ddefnyddio arddull partneru busnes a chomisiynu
- Darparu dysgu, addysg, offer ac arweiniad i gefnogi’r busnes i ymwreiddio I&D
- Creu system rheoli perfformiad gan ddefnyddio llywodraethu a strwythurau cadarn i olrhain llwyddiant a buddion
- Nodi a rhannu dysgu sefydliadol a dysgu o fethiant
- Creu model gwireddu buddion sy’n gyrru gweithgarwch ac allbynnau tuag at ganlyniadau diriaethol a mesuradwy
- Sicrhau bod perchnogaeth ac atebolrwydd yn cael eu hymwreiddio mewn strategaethau a chynlluniau hirdymor, cyson a chynaliadwy
- Defnyddio technoleg, data a metrigau allweddol i yrru allbynnau a gweithgareddau clir a gefnogir gan ffocws di-ildio ar draws y llu
- Gan gofleidio ymagwedd sy’n osgoi hierarchaeth yn bwrpasol er mwyn grymuso arweinwyr a rheolwyr i gymryd perchnogaeth a bod yn gyfrifol am gyflawni
- Defnyddio craffu mewnol ac allanol

# Geirfa

**Mae terminoleg yn bwysig. Drwy gydol y strategaeth hon rydym wedi cyfeirio at y termau isod, y gall rhai ohonynt fod yn anghyfarwydd neu fod â 'llawer' o ddiffiniadau. I gefnogi'ch dealltwriaeth, defnyddiwch yr eirfa isod sy'n darparu'r diffiniadau a ddefnyddiwn i lywio ein gwaith.**

## Achrediad Pride 365

Ein hachrediad a'n haddewid i chwarae ein rhan mewn gwella cynhwysiant yn y gweithle a chymdeithas a bod yn allweddol wrth ddod â diwedd i gymhwysiad corfforaethol y gymuned LGBT+ (golchi pinc) i helpu i greu byd o gynhwysiant i bawb.

## Amrywiaeth

Cydnabod, gwerthfawrogi a pharchu gwahaniaethau seicolegol, corfforol a chymdeithasol pobl, fel y gellir gwireddu eu llawn botensial a'u cyfraniad.

## Craffu allanol

Y ffordd rydym yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd graffu ar sut mae pwerau'r heddlu'n cael eu defnyddio wrth ryngweithio â'r cyhoedd, ynghyd â meysydd eraill a allai fod yn peri pryder i'r gymuned leol.

## Croestoriadedd

Y gydnabyddiaeth bod gan bawb eu profiadau unigryw eu hunain o wahaniaethu a gormes a rhaid i ni ystyried popeth ac unrhyw beth a all ymyleiddio pobl – rhywedd, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a'r holl nodweddion gwarchodedig.

## Cydraddoldeb

Trin unigolion neu grwpiau'n deg, gan sicrhau eu bod yn cael eu trin yn gyfartal a dim llai ffafriol mewn meysydd sy'n cynnwys oedran, anabledd, rhywedd, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth.

## Cyfreithlondeb

Mae ymddiriedaeth a chyfreithlondeb gyda'r gymuned yn hanfodol ac mae tystiolaeth gref i ddangos y gall canfyddiad y cyhoedd o driniaeth deg a pharchus gan yr heddlu ddylanwadu ar gydymffurfiaeth â'r gyfraith, trwy greu ymdeimlad o alinio moesol a chydweithio.

## Cynnig sy'n ystyriol o deuluoedd

Y cynnig i'n pobl a'n hymunwyr newydd ein bod yn gynhwysol ac yn ystyried anghenion y bobl hynny sy'n ymdopi â theuluoedd ac sydd â chyfrifoldebau gofalu.



# Geirfa

## Defnyddio Pwerau
Pwerau'r heddlu a ddefnyddir yn y cyd-destun hwn yw taser, stopio a chwilio, gefynnau a chwilio.

## Diogel i ddweud
Ein hymgyrch i annog ein pobl i rannu gwybodaeth yn ymwneud â'u nodweddion gwarchodedig fel y gallwn ddeall cynrychiolaeth ein gweithlu yn wirioneddol.

## Economaidd-gymdeithasol
Ffordd o ddisgrifio pobl yn seiliedig ar eu haddysg, eu hincwm a'u math o swydd.

## Ffrindiau beirniadol
Cydweithwyr neu bartneriaid sy'n galonogol ac yn gefnogol, ond sy'n rhoi adborth gonest ac yn aml yn ddidwyll a all fod yn anghyfforddus neu'n anodd ei glywed. Mae ffrind beirniadol yn rhywun sy'n cytuno i siarad yn onest ond yn adeiladol, am wendidau, problemau, ac yn aml materion emosiynol.

## Gweithgareddau dargyfeiriol
Ein hymateb i leihau pa mor agored yw plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol, camfanteisio'n droseddol ar blant ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## Gweithredu cadarnhaol'
Cymryd camau penodol i wella cydraddoldeb yn y gweithle gan ddefnyddio Deddf Cydraddoldeb 2010 megis annog pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ymuno.

## Gwireddu buddion
Offeryn i sicrhau ein bod yn cael y deilliannau a'r canlyniadau a fwriedir o'n gwaith.

## Niwroamrywiaeth
Mae'n cyfeirio at y cysyniad o wahanol fathau o ymennydd a gwahanol ffyrdd o feddwl. Cyfeirir ato weithiau fel amrywiaeth gwybyddol. Er bod niwroamrywiaeth yn cwmpasu pob math o ymennydd yn y boblogaeth ddynol, cymerir yn gyffredin ei bod yn cyfeirio at gyflyrau niwrogyfeiriol megis awtistiaeth a dyslecsia.

## Nodweddion gwarchodedig
Mae yn erbyn y gyfraith i wahaniaethu yn erbyn unrhyw un oherwydd: oedran, ailbennu rhywedd, bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil, bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth, anabledd, hil gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

## Rhanddeiliaid
Ein rhanddeiliaid yn y strategaeth hon yw Ffederasiwn yr Heddlu, Cymdeithas Uwcharolygwyr yr Heddlu, Cymdeithas Staff Cyflogedig Trafnidiaeth (TSSA) a'r Cymdeithasau Cymorth i Gyflogeion.

# Gweledigaeth

**Bod yn Llu lle mae ein pobl yn teimlo eu bod yn perthyn, yn cael eu gwerthfawrogi, a bod ein cymunedau'n teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u hamddiffyn.**

## Lle rydym ni nawr

Yn 2021, gwnaethom fuddsoddi yn y Tîm Cynhwysiant Strategol ac Amrywiaeth i fynd i'r afael â'r ddibyniaeth ar unigolion sydd â phrofiad bywyd ac angerdd i fod yn berchen ar gynhwysiant ac amrywiaeth, eu gyrru a'u cyflawni, yn aml ochr yn ochr â rolau amser llawn, heb fawr o gymorth sefydliadol.

Roedd pocedi o ragoriaeth gyda llawer o weithgareddau â bwriadau da ond rhai ad hoc a heb eu cyfeirio. Prin oedd y cyfle ar gyfer dysgu sefydliadol neu wireddu buddion ac roedd llywodraethu a strwythurau i gefnogi cynhwysiant ac amrywiaeth yn fach iawn.

Mae meithrin ymddiriedaeth a chyfreithlondeb yn amcan strategol i'r Llu. Dros ddegawdau mae llawer o achosion proffil uchel presennol a hanesyddol o gamddefnyddio pwerau plismona wedi gadael ein cymunedau a'n pobl yn dweud wrthym, yn gwbl briodol, am wneud yn well.

Mae ein strategaeth Gwarcheidwaid y Rheilffordd a'n Prif Gwnstabl wedi darparu'r ysgogiad i gryfhau ac adeiladu capasiti I&D ac, yn ei dro, effaith fesuradwy.

Mae tîm newydd wedi gallu adolygu gweithgarwch, meithrin perthnasoedd a chynnig gwasanaeth partneru busnes i'r Llu. Mae'r tîm wedi datblygu mesurau, rhaglenni a phrosiectau ar gyfer gwireddu buddion ac mae ganddo gyfrifoldebau penodol am gyflawni yn ôl y strategaeth hon. Byddwn yn osgoi'r hyn y mae plismona wedi'i brofi'n aml yn flaenorol; gweithgarwch dros dro, byrhoedlog ac adweithiol a amlygir gan uchafbwyntiau o ymdrech ac yna cafnau o egni isel yn arwain at ychydig yn unig o effaith gyffredinol.

## Amcanion a Thargedau

Mae bod yn feiddgar ac uchelgeisiol, tra'n parhau'n realistig a chyfreithlon, yn golygu llwyddo lle nad ydym wedi llwyddo o'r blaen, rhaid i ni godi'r bar ar ein disgwyliadau a'n hegni.

Gosodir targedau yn rheolaidd ac yn eang mewn plismona ond anaml ar gyfer I&D. I rai mae hyn oherwydd y gall I&D arwain at ymddygiad tocenistaidd, 'blwch ticio' ac ymddygiad gwrthnysig yn aml. Nid yw targedau'n arwain at ymddygiadau gwael fel sy'n amlwg mewn llawer o feysydd eraill o berfformiad yr heddlu a gosod targedau. Ag arweinyddiaeth gynhwysol, rheolaeth ddeallus a chraffu allanol byddwn yn sicrhau bod ein targedau'n ychwanegu gwerth mewn ffordd gyfreithlon a chadarnhaol.

Mae twf cyson, cynaliadwy a mesuradwy gyda chyflymder cynyddol yn gofyn am gyfuniad o dargedau ac amcanion: amcanion yw ein datganiadau lefel uwch; mae targedau'n ganlyniadau dymunol penodol y cânt eu cyflawni, ac yn caniatáu i ni fesur ein heffaith.



# Ein hamcanion

1. Creu diwylliant cynhwysol
2. Ymgysylltu â'n pobl a'u chynnwys
3. Gwella cynrychiolaeth ein gweithlu
4. Adeiladu cymunedau hyderus, ymgysylltiol sy'n cael eu hamddiffyn
5. Hyrwyddo addysg a dysg i'n pobl



# 1: Diwylliant Cynhwysol

Mae ein strategaeth Pobl yn ymdrechu i gyflawni ein hamcan strategol o weithle modern a chynhwysol drwy adeiladu Llu modern a chynhwysol lle mae ein pobl yn meddu ar yr adnoddau gorau, yn cael euu hyfforddi'n dda, yn cael eu harwain yn dda, yn derbyn gofal da, lle gwrandawir arnynt a lle mae'n adlewyrchu'r gorau o'n cymunedau.

Mae hyn yn cynnwys meithrin dealltwriaeth gynhwysol ac arweinyddiaeth fyfyriol sy'n galluogi cyfiawnder gweithdrefnol a gweithgareddau teg a thryloyw drwy ddileu anghymesuredd ac anfantais yn ein systemau, gweithdrefnau a phrosesau sefydliadol.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy

- **Gwella arferion cynhwysol ar gyfer Anabledd a Niwroamrywiaeth**
- **Gwella Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (EIA)**
- **Addasiadau yn y gweithle a chyflwyno pasbortau**
- **Cymhwyso gweithio hyblyg yn deg ac yn dryloyw opsiynau**
- **Deall a lliniaru materion diwylliannol sy'n gysylltiedig â bwlio ac aflonyddu**

## Canlyniadau ar gyfer blwyddyn un

- Hyderus o ran Anabledd Cydymffurfio ar Lefel 1
- Dyfarniad Hyderus o ran Anabledd ar Lefel 2 wedi'i gwblhau
- Gwell hunan-ddatganiad o anabledd ar gyfer cydraddoldeb monitro
- Addasiadau yn y gweithle a phasbortau ar gael
- Ail-lansio EIA fel eu bod yn arwain y broses o wneud penderfyniadau yn well
- Ail-lansio Cymdeithas Cefnogi Cyflogeion anabledd

## Beth fydd hyn yn ei gyflawni

- Diwylliant lle mae ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys ac yn rhydd i ddod â'u holl hunain i gyd i'r gwaith
- Mwy o ymddiriedaeth ymhlith ein pobl, gan arwain at well dealltwriaeth a hyder ein pobl ag anabledd a niwroamrywiaeth i hunan-ddatgan
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer recriwtio a dilyniant a gweithlu mwy cynrychioliadol
- Pasbortau addasiadau yn y gweithle yn darparu mynediad i ddilyniant, lles a gweithio hyblyg
- Gwell dealltwriaeth o a gostyngiad mewn anghymesuredd ac anfantais o ddefnyddio EIAs

# 2: Ymgysylltu a Chynnwys

Mae ymgysylltu â'n pobl yn hanfodol i ddeall profiadau bywyd, dileu rhwystrau a darparu gwasanaeth teg a chyfiawn iddynt. Bydd cynnwys ein Cymdeithasau Staff Cyflogeion a Chymdeithasau Cyflogeion (Cymdeithas Staff Cyflogedig Trafnidiaeth (TSSA), Ffederasiwn BTP a Chymdeithas Uwcharolygwyr BTP) yn sicrhau ein bod yn cynnwys ein pobl i ddylanwadu ar newid a gwneud gwelliannau. Mae ymgysylltu hefyd yn diogelu ein bwriad i osgoi seilos ac adeiladu ymagwedd groestoriadol at yr holl weithgarwch I&D.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy

- **Gwella ein cynnig ystyriol o deuluoedd**
- **Ymgysylltu â'n rhanddeiliaid mewnol a chydweithwyr i hwyluso gwell gwrando sefydliadol o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol**
- **Gwell cymorth ac arweiniad i'n pobl**
- **Gweithredu Cadarnhaol ar draws hyrwyddiadau, talent a mentrau arweinyddiaeth**
- **Cynyddu cynrychiolaeth y gweithlu ar raddau, rhengoedd a rolau arbenigol uwch**

## Canlyniadau ar gyfer blwyddyn un

- Dychweliad graddol ar waith a chynllun cyfaill mamolaeth wedi'i adnewyddu a'i integreiddio â'n adran lles
- Cyfarfod rhanddeiliaid mewnol wedi'i sefydlu ac ymgysylltu cynyddol
- Achrediad Pride 365 a pholisi trawsnewid gwell yn y gwaith
- Proses dyrchafiadau newydd gyda chamau gweithredu cadarnhaol wedi'uhymgorffori
- Cynllun 'Dewch â'ch merch i'r gwaith' a phrofiad gwaith ar gyfer pobl ifanc i ysbrydoli'r genhedlaeth bod Plismona'n yrfa amrywiol a diddorol i bawb

## Beth fydd hyn yn ei gyflawni

- Byddwn yn gyflogwr o ddewis i rieni a gofalwyr sy'n gweithio ac annog amrywiaeth meddwl a chynrychiolaeth gynyddol
- Bydd ESA yn ymgysylltu ac yn ymwneud â gwella cynhwysiant, croestoriadedd, amrywiaeth a pherthyn
- Bydd ein harweinwyr mewn gwell sefyllfa i gefnogi cyflogeion amrywiol o ran rhywedd a byddwn yn cael ein cydnabod fel cyflogwr cynhwysol
- Bydd ein proses dyrchafiadau yn fwy tryloyw a chynhwysol gan arwain at well cynrychiolaeth o ran arweinyddiaeth
- Bydd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chymunedau na chlywir yn aml yn teimlo'n fwy hyderus mewn plismona fel gyrfa, gan gyfrannu at gynnydd mewn cynrychiolaeth yn y tymor hir

# 3: Cynrychiolaeth y gweithlu

Mae gwella cynrychiolaeth y gweithlu yn hanfodol i gyflawni Llu sy'n deall ac yn darparu gwasanaeth effeithiol a chymesur i'n cymuned.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy

- **Datblygu profiad cynhwysol i'n pobl o gynefino i derfynu**
- **Nodi a gweithredu'n gynnar ar gyfer unrhyw dan-gynrychiolaeth**
- **Strategaeth cadw a gadael sy'n galluogi dysgu a gwelliannau sefydliadol ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol**
- **Gwell data ar y gweithlu trwy hunan-ddatganiad i lywio gweithgarwch gweithredu cadarnhaol**
- **Ffocws ar oedran a statws economaidd-gymdeithasol**

## Canlyniadau ar gyfer blwyddyn un

- Mapio tan-gynrychiolaeth gyda gweithredu cadarnhaol â ffocws gweithgarwch gwella
- Ymgyrch 'Diogel i Ddweud' i wella data nodweddion gwarchodedig ymhlith y gweithlu
- Gweithgareddau cydweithio yn cefnogi ein pobl o ymuno i adael
- Cynllun cadw a datblygu pecyn cymorth cadw i cefnogi rheolwyr llinell i gael sgyrsiau agored a chynnig cymorth

## Beth fydd hyn yn ei gyflawni

- Gweithlu sy'n cynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn well
- Gweithlu mwy amrywiol
- Gwell cynrychiolaeth ar bob lefel
- Cadw talent ac ymadael ag urddas
- Cynhwysiant i bob oed
- Llai o fylchau cyflog rhywedd ac ethnigrwydd

# 4: Cymunedau hyderus, ymroddedig a gwarchodedig

## Gwella Ymddiriedaeth a Chyfreithlondeb

Bydd gennym ffocws clir ar gydraddoldeb a didueddrwydd ym mhopeth a wnawn. Drwy nodi lle mae ein gwasanaeth a'n canlyniadau yn anghymesur a herio ein hunain i ddeall pam, byddwn yn hyrwyddo diwylliant dysgu ledled y Llu sy'n galluogi newid hirdymor.

Byddwn yn meithrin ymddiriedaeth a chyfreithlondeb trwy wella ein safonau proffesiynol, annog craffu mewnol ar ein polisïau a phrosesau sefydliadol a chraffu allanol ar ein gweithgareddau plismona gan ddefnyddio lens gynhwysol, bob amser.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy

- **Cyflawni Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu yn ymgorffori y cynllun 'Symud y Nodwydd' blaenorol a'r Yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG)**
- **Lleihau anghymesuredd yn y Defnydd o Bwerau**
- **Gwella gwasanaeth a dealltwriaeth ynghylch troseddau casineb a darparu ymateb Cymraeg pan yw'n briodol**
- **Gweithgareddau dargyfeiriol i bobl ifanc, hygyrchedd a chymorth i bobl sy'n agored i niwed a'r rhai sydd ag anableddau a chyflyrau niwroamrywiol**
- **Defnydd effeithiol o graffu allanol i wella ymddiriedaeth a chyfreithlondeb**

## Canlyniadau ar gyfer blwyddyn un

- Goruchwyliaeth ganolog a llywodraethu ar gyfer Craffu Allanol
- Gwell adrodd ar Ddefnydd o Grym – data, bylchau a nodi a lliniaru risg
- Cynlluniau Ymddiriedaeth a Chyfreithlondeb gyda Chynllun Gweithredu Hil a Symud y nodwydd yn ei le, a reolir gan y Cynllun Gweithredu Hil Grŵp Llywio i hwyluso buddion diriaethol
- Mynd i'r afael â newid diwylliant hanfodol sy'n gysylltiedig â VAWG
- Deall a gweithredu o'r Arolwg Pawb

## Beth fydd hyn yn ei gyflawni

- Gwell plismona i bobl Ddu
- Diwylliant gwrth-hiliol a gwrth-misogynaidd
- Adrodd yn effeithiol a chywir ar y defnydd o bwerau
- Llai o anghymesuredd ymhlith y rhai yr effeithir arnynt fwyaf
- Gwell hyder a boddhad yn fewnol ac yn allanol

# 5: Addysg a dysgu

Bydd meithrin gwybodaeth a gallu yn arfogi ein pobl i ddeall a chymhwyso I&D yn well. Bydd addysg ynghylch ymddygiadau moesegol, iaith a therminoleg, rhagfarn ac anfantais, a diwylliannau ac arweinyddiaeth cynhwysol yn llywio cynhwysiant a pherthyn yn ogystal â phrosesau teg a chyfiawn.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy

- **Addysg I&D ar gyfer cydweithwyr newydd**
- **Darpariaeth ddysgu I&D ar gyfer ein holl bobl**
- **Ymwybyddiaeth ymddygiad moesegol ar gyfer ein holl bobl**
- **Datblygiad gweithredu cadarnhaol ar gyfer dilyniant**
- **Datblygu ymwybyddiaeth ddiwylliannol**

## Canlyniadau ar gyfer blwyddyn un

- Mwy o gyfleoedd datblygu i rai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Fforwm i drafod, dadlau a dysgu o cyfyng-gyngor moesegol
- Mynediad i weithdai ymwybyddiaeth ddiwylliannol
- Uwchsgilio pobl mewn rolau allweddol i gyflwyno I&D cyson addysg ac ymwybyddiaeth

## Beth fydd hyn yn ei gyflawni

- Meddwl a dealltwriaeth amrywiol ynghylch gwahanol ddiwylliannau i alluogi gwell darpariaeth gwasanaeth
- Dealltwriaeth o ymddygiad derbyniol yn y gweithle
- Gwell cynrychiolaeth ar bob lefel
- Dealltwriaeth a dysgu cyson wedi’u hymwreiddio ar bob lefel
- Gwell safonau proffesiynol, triniaeth decach, cyfreithlondeb mewnol

# Meysydd Targed

**Mae gennym bum maes targed. Mae gan y rhain ddyddiad targed o 2028, ond bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n barhaus a gellir eu symud i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn uchelgeisiol ac yn realistig.**

Byddwn yn asesu ein cynnydd ac aeddfedrwydd ein hymagwedd yn rheolaidd fel y gallwn gyfathrebu a dangos i'n pobl a'r cyhoedd y cynnydd rydym yn ei wneud.

## Maes targed un: Cynrychiolaeth y gweithlu (pawb gan gynnwys Cwnstabliaid Gwirfoddol)

Yn ôl Cyfrifiad 2021 mae cyfansoddiad Lleiafrifoedd Ethnig Cymru a Lloegr wedi cynyddu 4.3% o Gyfrifiad 2011 i fod yn 18.4% o'r boblogaeth.

### Ffigurau cyfredol BTP a thargedau 2028:

| | **Cyfredol** (23/01/23) | **Targed 2028** |
|---|---|---|
| **Swyddogion benywaidd** | **21.8%** | O leiaf i gyfateb data cyfrifiad cenedlaethol o **51%** |
| **Swyddogion o leiafrifoedd ethnig** | **10.5.%** | O leiaf i gyfateb data cyfrifiad cenedlaethol o **18.4%** |
| **Anabledd heb ei nodi –** pob cyflogai | **84.8%** | Uchafswm o **10%** sy'n ticio heb ei nodi |
| **Cyfeiriadedd rhywiol heb ei nodi –** pob cyflogai | **70.9%** | Uchafswm o **10%** sy'n ticio heb ei nodi |

# Meysydd Targed

## Maes Targed dau: Gostyngiad mewn anghymesuredd

Dangosydd allweddol o unrhyw ddiffyg ymddiriedolaeth yw anghyfartaledd yn y defnydd o bwerau plismona. Mae'r tebygolrwydd o gael eich stopio a'ch chwilio, y defnydd o rym, neu ddioddefwr trosedd yn sylweddol uwch os ydych o gefndir Lleiafrifoedd Ethnig.

| **Cyfredol** (23/01/23) | **Du** (gwaith yn fwy tebygol) | **Asiaidd** (gwaith yn fwy tebygol) | **Asiaidd** (gwaith yn fwy tebygol) |
|---|---|---|---|
| **Stopio a Chwilio** | **6.5** | **1.3** | **2.9** |
| **Defnydd o rym** | **7.5** | **1.1** | **1.6** |
| **Bod yn ddioddefwr** | **2.0** | **1.9** | **1.9** |

*Cyfrifiad Cymru a Lloegr 2021 / Cyfrifiad Yr Alban 2011 / Data Stopio a Chwilio ar gyfer 2022 gyfan (30% o SDE heb ei nodi) / Data Defnydd o Rym o Chwefror-Rhagfyr 2022 (Yn defnyddio ODE gan nad oes SDE ond mae ganddo'r opsiwn 'Cymysg) / Data Dioddefwyr ar gyfer 2022 cyfan (60% o SDE heb ei nodi)*

Bydd y data uchod yn cael ei fonitro drwy Fyrddau Anghymesuredd, Bwrdd I&D Strategol, Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu a chanfyddiadau o Arolygon Agwedd y Cyhoedd.

**Bydd samplo ar hap o'r holl weithgarwch cysylltiedig ar gyfer cydymffurfio a chamau datblygu dilynol yn digwydd:**

1. Bydd pob cofnod stopio a chwilio yn cynnwys ethnigrwydd hunan-ddiffiniedig yr unigolyn neu fel a ddiffinnir gan swyddog gyda'r rhesymeg lawn dros 'Dim Ethnigrwydd a Hunan-ddiffinir'
2. Bydd pob cofnod Stopio a Chwilio yn cynnwys seiliau sydd yn rhesymol
3. Bydd anghymesuredd yn cael ei nodi a'i ddwyn i sylw yr uwch arweinydd perthnasol a/neu reolwr llinell a fydd yn mabwysiadu dull 'esbonio neu ddiwygio'

# Meysydd Targed

## Maes targed tri: Diwylliant

- Bydd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob polisi yn cael eu cwblhau
- Bydd pob gorsaf, tîm ac adran yn ymgymryd ag archwiliadau cynhwysiant a diwylliant blynyddol
- Byddwn yn mesur teimladau pobl, yn enwedig y rhai o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, o gynhwysiant drwy'r Arolwg Pawb blynyddol a chychwyn ac adolygu camau gweithredu

## Maes targed pedwar: Cadw ac Ymadael

- Bydd ein holl bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n gadael y sefydliad yn cael cynnig cyfweliad ymadael gyda'r tîm neu'r I&D neu'r Gymdeithas Staff Cyflogeion berthnasol
- Bydd ein holl bobloedd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu cyfeirio at Gymdeithasau Staff Gweithwyr wrth ymuno
- â holl rolau a swyddi swyddogion a staff a chaiff swyddi eu hysbysebu gyda'r holl opsiynau gweithio hyblyg

## Maes targed pump: Dyrchafiad a Dilyniant

- Bydd pob ymgeisydd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael cynnig cymorth gweithredu cadarnhaol



# Atodiad 2: Meysydd Gwaith

**Byddwn yn defnyddio'r adnoddau canlynol:**

- Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
- Gweithredu Cadarnhaol a.158 a 159
- Craffu Allanol
- Ymgysylltu mewnol â rhanddeiliaid
- Arweinyddiaeth gynhwysol
- Uwch noddwyr a hyrwyddwyr
- Dysgu sefydliadol ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Model Aeddfedrwydd ar gyfer hunanasesu

**Byddwn yn cyfrannu at y:**

- Strategaeth Pobl

**Bydd ein cynlluniau yn cyfrannu at:**

- Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu gyda Symud y Nodwydd
- Cynllun Gweithredu HeforShe
- Arolwg Pawb

# Atodiad 3: Dolenni i strategaethau a blaenoriaethau ychwanegol

Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu **yma** ar gyfer NPCC ac **yma** ar gyfer y Coleg Plismona

- Cynllun VAWG **yma**
- Strategaeth DEI Genedlaethol **yma**
- **HAFAN | Hyb Codiad**
- Codiad swyddogion heddlu, diweddariad chwarterol hyd at fis Mehefin 2022 2022 – **GOV.UK (www.gov.uk)**
- **https://www.policeeventsportal.co.uk/**
- **Casglu a chofnodi | Coleg Plismona**

HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG

**Strategaeth Pum Mlynedd / Cynhwysiant ac Amrywiaeth / 2023 – 2028**

Adlewyrchu'r gorau o'n cymunedau